| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 19 Ionawr 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2022/23 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Hydref 2022, blaenoriaethwyd eitemau ar gyfer y cyfarfodydd dilynol a mabwysiadwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2022/23.

2. Mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adran perthnasol. Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod gyda'r Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC a'r Pennaeth Adran ar 21 Rhagfyr 2022.

3. Yn ystod y cyfarfod, cyfeiriwyd at yr eitem a graffwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Hydref 2022, sef 'Strategaeth Llifogydd Lleol'. Gwnaed cais i'r Pwyllgor graffu 'Asesiad Risg Llifogydd' yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Mawrth 2023, gan y byddai'n bwydo i mewn i'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Llifogydd Lleol sydd i fod yn ei le erbyn Hydref 2023.

4. Byddai craffu'r eitem yng nghyfarfod mis Mawrth yn galluogi'r Pwyllgor i gael mewnbwn gan ychwanegu gwerth yn amserol.

5. **Gofynnir i'r Pwyllgor fabwysiadu'r rhaglen waith diwygiedig.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2022/23

| **28/09/2022** |
|---|
| • Adroddiad Blynyddol 2021/22 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Biniau Halen a graeanu strydoedd cefn<br>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus |
| **27/10/2022** |
| • Datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig<br>• Cynllun Gwella Hawliau Tramwy<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol |
| **19/01/2023** |
| • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Cynllun Llesiant<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd<br>• Gwasanaeth Casglu Gwastraff (gan gynnwys gorwariant a gwireddu arbedion) |
| **09/03/2023** |
| • Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Opsiynau Ardaloedd Posib Cyfarwyddyd Erthygl 4 – dosbarthiadau defnydd tai<br>• Glendid Stryd<br>• Asesiad Risg Llifogydd |

<u>Eitem i'w raglennu</u>:

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur